Wales Centre for Public Policy
Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

# Hawdd ei Darllen: Tystiolaeth o brofiad uniongyrchol yn y gwaith o lunio polisïau anabledd

**Kathryn Williams**

Mawrth 2024

# Ein Cenhadaeth

Mae Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru (CPCC) yn helpu i wella'r broses o lunio polisïau a gwasanaethau cyhoeddus drwy gynorthwyo gweinidogion ac arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus i gyrchu a defnyddio tystiolaeth annibynnol gadarn ynghylch yr hyn sy'n gweithio. Mae'n gweithio mewn partneriaeth ag ymchwilwyr blaenllaw ac arbenigwyr polisi i syntheseiddio a chrynhoi tystiolaeth sy'n bodoli eisoes a chanfod bylchau lle mae angen cynhyrchu gwybodaeth newydd.

Mae'r Ganolfan yn annibynnol ar y llywodraeth ond mae'n gweithio'n agos gyda llunwyr polisïau ac ymarferwyr i ddatblygu syniadaeth o'r newydd ynglŷn â sut i fynd i'r afael â heriau strategol ym meysydd iechyd a gofal cymdeithasol, addysg, tai, yr economi a chyfrifoldebau datganoledig eraill. Mae'n gwneud y canlynol:

- Helpu Gweinidogion Llywodraeth Cymru i nodi tystiolaeth awdurdodol ac arbenigedd annibynnol a all helpu i lywio a gwella polisi, yn ogystal â chael gafael ar dystiolaeth ac arbenigedd o'r fath a'i defnyddio;
- Gweithio gyda gwasanaethau cyhoeddus i gael gafael ar dystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio wrth fynd i'r afael â heriau economaidd a chymdeithasol allweddol, yn ogystal â chynhyrchu, gwerthuso a defnyddio tystiolaeth o'r fath; a
- Defnyddio'i gwaith gyda Gweinidogion a gwasanaethau cyhoeddus i wella dealltwriaeth o'r ffordd y gall tystiolaeth lywio a gwella'r broses o lunio polisïau a gwasanaethau cyhoeddus a chyfrannu at ddamcaniaethau llunio a gweithredu polisïau.

Drwy secondiadau, lleoliadau PhD a'i rhaglen Prentisiaeth Ymchwil, mae'r Ganolfan hefyd yn helpu i wella gallu ymchwilwyr i wneud gwaith ymchwil effeithiol sy'n berthnasol i bolisi.

I gael rhagor o wybodaeth ewch i'n gwefan yn [www.wcpp.org.uk/cy/](http://www.wcpp.org.uk/cy/)

## Arianwyr Craidd

Sefydlwyd **Prifysgol Caerdydd** ym 1883. Wedi'i lleoli mewn prifddinas ffyniannus, mae'r Brifysgol yn sefydliad uchelgeisiol ac arloesol sy'n awyddus i feithrin cydberthnasau rhyngwladol cryf a dangos ei hymrwymiad i Gymru.

Mae'r **Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (ESRC)** yn rhan o UK Research and Innovation, sefydliad newydd sy'n dwyn ynghyd saith cyngor ymchwil y DU, Innovate UK a Research England i sicrhau bod pob cyngor yn cyfrannu cymaint â phosib ac i greu'r amgylchedd gorau ar gyfer datblygu ymchwil ac arloesedd.

**Llywodraeth Cymru** yw llywodraeth ddatganoledig Cymru sy'n gyfrifol am feysydd allweddol o fywyd cyhoeddus, gan gynnwys iechyd, addysg, llywodraeth leol a'r amgylchedd.

# Cynnwys


**Sut i ddefnyddio'r adroddiad hwn** **4**

**Pwpras yr adroddiad hwn** **5**

**Sut y gwnaethom yr ymchwil** **8**

**Canfyddiadau** **10**

- **Ystyr geiriau** **10**
- **Pa dystiolaeth sy'n bwysig?** **14**
- **Cynnwys tystiolaeth o brofiad uniongyrchol a chydgynhyrchu** **18**

**Beth y gellid ei wneud?** **22**

**Geiriau anodd** **24**

Manylion yr Awduron 26

# Sut i ddefnyddio'r adroddiad hwn




Dogfen Hawdd ei Darllen yw hon. Ond efallai y bydd angen help arnoch i'w ddarllen o hyd. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod eich helpu.




Gall geiriau mewn **ysgrifen gwyrdd trwm** fod yn anodd eu deall. Gallwch weld beth mae'r geiriau hyn yn ei olygu ar dudalen 23.

Wales Centre for Public Policy
Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

Pan fydd yr adroddiad yn dweud 'ni', mae hyn yn golygu Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

# Pwpras yr adroddiad hwn




Adroddiad yw hwn. Mae'n ymwneud â **thystiolaeth** o brofiad uniongyrchol a **chydgynhyrchu** ar gyfer **llunio polisïau anabledd** yng Nghymru.



Mae **llunwyr polisïau** am gynnwys pobl sydd â phrofiad uniongyrchol.

Mae **tystiolaeth** yn wybodaeth y gellir ei defnyddio i brofi rhywbeth.

**Cydgynhyrchu** yw lle mae gwahanol bobl yn gweithio gyda'i gilydd yn gyfartal.

**Llunio polisïau** yw'r gwaith o greu **polisi**.

Mae **polisi** yn rhestr o'r hyn y mae angen ei wneud a sut y dylid ei wneud.

Pobl sy'n creu **polisi** yw **llunwyr polisïau.**



Gwnaethom ymchwil i ateb tri chwestiwn:

1. Beth yw rôl tystiolaeth profiad uniongyrchol wrth **lunio polisïau**?
2. Beth mae pobl yn ei ddweud am brofiad uniongyrchol?
3. Sut mae pobl yn cynnwys tystiolaeth o brofiad uniongyrchol **ar y cyd**?

Mae **ar y cyd** yn golygu gweithio **gyda'n gilydd**.



Mae'r adroddiad hwn yn edrych ar sut mae sefydliadau gwahanol yn cynnwys pobl sydd â phrofiad uniongyrchol. Mae'r rhain yn cynnwys **sefydliadau ar lawr gwlad, broceriaid gwybodaeth** a Llywodraeth Cymru.

Mae **sefydliadau llawr gwlad** yn bobl yn y gymuned sy'n gweithio gyda'i gilydd i ddatrys problemau a helpu pobl.

Mae **broceriaid gwybodaeth** yn bobl sy'n dod o hyd i **dystiolaeth** ar gyfer **llunwyr polisïau**.



Nid yw pawb yn defnyddio geiriau yn yr un ffordd. Mae’r adroddiad hwn yn edrych ar sut mae pobl yn defnyddio geiriau fel profiad uniongyrchol a **chydgynhyrchu**.



Mae rhai pobl yn credu bod **tystiolaeth** arall yn bwysicach na **thystiolaeth** o brofiad uniongyrchol. Mae’r adroddiad hwn yn edrych ar ba mor bwysig yw **tystiolaeth** profiad uniongyrchol yn eich barn chi.



Mae’r adroddiad hwn yn edrych ar bwy sydd yn rhan o **gydgynhyrchu**. Mae’r adroddiad hefyd yn edrych ar bwy sy’n cael eu gadael allan o **gydgynhyrchu**.

# Sut y gwnaethom yr ymchwil



Fe wnaethon ni gyfweld saith o bobl. Fe wnaethon ni ofyn iddyn nhw siarad am brofiad uniongyrchol a **chydgynhyrchu**.



Fe wnaethon ni ofyn cwestiynau iddyn nhw am eu barn am brofiad uniongyrchol.



Fe wnaethon ni ofyn cwestiynau iddyn nhw am sut maen nhw'n **cydgynhyrchu**.




Fe wnaethon ni ddarllen dogfennau am brofiad uniongyrchol a **chydgynhyrchu**. Ysgrifennwyd y rhain gan Lywodraeth Cymru, **sefydliadau ar lawr gwlad** a **broceriaid gwybodaeth**. Daethpwyd o hyd i'r dogfennau hyn ar y rhyngrwyd.

# Canfyddiadau

## Ystyr geiriau



Nid oes gan rai geiriau ystyron sefydlog. Er enghraifft, gallai **llunio polisi** anabledd ymwneud â **pholisi** ar gyfer pobl anabl yn unig. Gallai **llunio polisïau** anabledd hefyd ymwneud â sut mae **polisi** rheolaidd yn effeithio ar bobl anabl.



Fel arfer, deellir **tystiolaeth** o **gydgynhyrchu** a phrofiad uniongyrchol fel dau beth ar wahân.



Fel arfer, disgrifir **tystiolaeth** o brofiad uniongyrchol fel cynnwys gwybodaeth gan bobl sydd â phrofiad o bwnc. Wrth **lunio polisïau** anabledd, pobl anabl fyddai'r rhain. Byddai rhai pobl yn dweud ei fod hefyd yn cynnwys rhieni neu'n ofalwyr i bobl anabl.




Weithiau, byddai pobl yn siarad am **gydgynhyrchu** a **thystiolaeth** o brofiad uniongyrchol fel pe baen nhw yr un peth. Ar adegau eraill, byddai pobl yn siarad am **gydgynhyrchu** a thystiolaeth o brofiad uniongyrchol fel bod yn rhaid eu cyfuno.



Mae hyn yn dangos bod pobl yn defnyddio'r un geiriau ond bod ganddyn nhw ystyron gwahanol. Gallai hyn olygu ei bod yn anoddach i bobl sydd â phrofiad uniongyrchol ddeall yr hyn sy'n cael ei drafod.



Fel arfer, dywedir bod **broceriaid gwybodaeth a sefydliadau**

ar **lawr gwlad** yn gwneud gwaith gwahanol.



Mae **sefydliadau llawr gwlad** yn aml yn gweithredu fel **broceriaid gwybodaeth**. Maen nhw'n gwneud gwaith ymchwil cefndirol i roi **tystiolaeth** i **lunwyr polisïau**.



Gall **broceriaid gwybodaeth** ddisgrifio eu gwaith gan ddefnyddio geiriau **sefydliadau llawr gwlad** fel eiriolaeth. Dyma pryd maen nhw’n defnyddio tystiolaeth i ddweud pa **bolisi** sydd ei angen.



Mae ymchwil sydd eisoes wedi cael ei ysgrifennu'n sôn am bobl â phrofiad uniongyrchol, **llunwyr polisïau, broceriaid gwybodaeth,** a **sefydliadau ar lawr gwlad** fel gwahanol grwpiau o bobl.



Weithiau, mae **llunwyr polisïau** a **sefydliadau ar lawr gwlad** hefyd yn bobl sydd â phrofiad uniongyrchol.



Roedd hyn weithiau’n golygu bod pobl o **sefydliadau ar lawr gwlad** yn cael eu gweld fel llais profiad uniongyrchol. Mae rhai pobl yn meddwl ei bod yn haws cael pobl o **sefydliadau ar lawr gwlad**. Mae pobl o **sefydliadau ar lawr gwlad** yn gwybod sut mae **polisi’n** gweithio.




Ystyriwyd **bod sefydliadau llawr gwlad** yn gallu rhoi **tystiolaeth** o brofiad uniongyrchol ac yn meddu ar wybodaeth am **bolisi**. Roedd hyn yn golygu eu bod yn cael eu hystyried yn arbenigwyr o fri. Mae hefyd yn golygu nad yw pobl eraill sydd â phrofiad uniongyrchol yn cael eu hystyried yn arbenigwyr ac y gellir eu gadael allan.

# Pa dystiolaeth sy'n bwysig?



Weithiau, mae profiad uniongyrchol yn cael ei alw'n brofiad hynod bwysig. Ysgrifennodd un ddogfen am y **ddyletswydd statudol** i gynnwys profiad uniongyrchol. Mae hyn yn dangos pa mor bwysig yw profiad uniongyrchol ar gyfer **llunio polisïau** anabledd.

Mae **dyletswydd statudol** yn rhywbeth y mae'r gyfraith yn dweud bod yn rhaid ei wneud.



Efallai na fydd profiad uniongyrchol yn dweud beth sydd ei angen ar gyfer pob person anabl.



Nid oedd profiadau uniongyrchol bob amser yn cael eu trafod fel **tystiolaeth**. Dywedodd rhai pobl fod profiad uniongyrchol ar wahân i **dystiolaeth** draddodiadol ac nid oedd yr un mor wir ag ymchwil sy'n defnyddio rhifau.



Gallai hyn olygu bod rhai pobl yn dal i feddwl bod rhywfaint o **dystiolaeth** yn bwysicach na phrofiad uniongyrchol. Dywedodd rhai pobl fod mathau traddodiadol o **dystiolaeth** yn safon aur sy'n golygu'r gorau. Roedd pobl eraill yn poeni am fod yn **rhagfarnllyd**.

Mae **rhagfarn** yn golygu gwrando ar un ochr yn fwy na'r llall.



Nid oedd pawb yn cytuno â hyn. Dywedodd rhai pobl fod angen iddyn nhw sicrhau bod profiad uniongyrchol yn cael ei drin yr un fath â **thystiolaeth** arall. Dywedodd rhai pobl nad ydyn nhw'n credu bod ymchwil gyda rhifau yn llai **rhagfarnllyd**.



Dywedodd rhai pobl fod **llunwyr polisïau** yn cael dewis pa brofiad uniongyrchol maen nhw'n gwrando arno. Mae gan **lunwyr polisïau** bŵer o hyd dros bobl sydd â phrofiad uniongyrchol oherwydd gallan nhw ddewis peidio â gwrando arnyn nhw.



Dywedodd rhai pobl na ddylai pobl â phrofiad uniongyrchol gael yr un pŵer.



Mae gan **lunwyr polisïau** hefyd rywfaint o bŵer i ddewis pwy sy'n cael rhannu eu profiad uniongyrchol. Maen nhw'n dweud wrth bobl am brosiectau drwy anfon negeseuon e-bost.



Mae hyn yn golygu bod llawer o'r un bobl sydd eisoes yn siarad â Llywodraeth Cymru yn rhannu profiad uniongyrchol.



Mae rhai pobl yn cael eu gadael allan o rannu profiad uniongyrchol, er nad yw hyn yn fwriadol. Mae'r bobl hyn yn aml yn dod o **leiafrifoedd ethnig** neu maen nhw'n bobl ag anabledd dysgu.

Pobl nad ydynt yn Wyn Prydeinig yw pobl o **leiafrifoedd ethnig**.




Mae rhai pobl yn cael eu gadael allan oherwydd nad ydynt yn ymddiried mewn ymchwilwyr a **llunwyr polisïau**.

# Cynnwys tystiolaeth o brofiad uniongyrchol a chydgynhyrchu




Mae **tystiolaeth** o brofiad uniongyrchol yn bwysig. Ond mae mathau eraill o **dystiolaeth** hefyd yn bwysig ar gyfer **llunio polisïau'n** dda.



Dydy pobl ddim bob amser yn dweud sut maen nhw’n cynnwys gwahanol fathau o **dystiolaeth**. Dywedodd rhai pobl ei bod yn anodd gwneud hynny.




Dywedodd rhai pobl eu bod yn chwilio am batrymau ailadroddus yn y **dystiolaeth**.



Mae **cydgynhyrchu** yn bwysig iawn ar gyfer **llunio polisïau'n** dda. Mae **cydgynhyrchu'n** gwneud **tystiolaeth** ar gyfer **polisïau'n** gryfach.



Dylai **cydgynhyrchu** ddigwydd ar bob cam o'r broses **llunio polisi**.



Ond dywedodd rhai pobl fod rhai rhannau o'r broses **llunio polisi** yn rhy anodd i bobl sydd â phrofiad uniongyrchol. Mae hyn yn dangos nad yw pawb yn cytuno y dylai **cydgynhyrchu** ddigwydd ar bob cam.



Nid yw'n glir chwaith beth mae pobl yn ei olygu pan fyddan nhw'n sôn am **gydgynhyrchu**. Mae rhai pobl yn rhoi llawer o fanylion yn egluro beth maen nhw'n ei olygu.



Doedd y rhan fwyaf o ddogfennau ddim yn dweud beth mae **cydgynhyrchu** yn ei olygu. Dywedodd rhai pobl fod y gair **cydgynhyrchu** yn gwneud iddynt deimlo'n nerfus oherwydd ei bod yn anodd dweud beth mae'n ei olygu.



Mae **cydgynhyrchu** go iawn yn cynnwys pobl sydd â phrofiad uniongyrchol. Mae'r **cyd-gynhyrchu** hwn yn rhannu pŵer. Mae **cydgynhyrchu** go iawn yn golygu bod pobl sydd â phrofiad uniongyrchol yn bartneriaid cyfartal.



Ond dywedodd rhai pobl ei bod yn anodd i bobl sydd â phrofiad uniongyrchol fod yn bartneriaid cyfartal. Weithiau, y rheswm am hyn yw bod Gweinidogion yn gwneud y penderfyniad **polisi** terfynol.



Mae **cydgynhyrchu** hefyd yn golygu bod yn rhaid i bawb sy'n gysylltiedig gytuno i weithio felly. Weithiau, dydy pobl ddim yn gwneud hyn, sy'n golygu bod pobl sydd â phrofiad uniongyrchol yn teimlo eu bod yn cael eu gadael allan. Mae'r bobl nad ydyn nhw'n gwneud hyn fel arfer yn bobl eraill sy'n cael eu gwahodd i

**gydgynhyrchu** ac nid Llywodraeth Cymru.




Mae **cydgynhyrchu** yn golygu bod **llunio polisïau'n** cymryd mwy o amser. Mae hyn weithiau'n golygu na all pobl weithio ym maes **cydgynhyrchu**.



Ond dywedodd rhai pobl fod **cydgynhyrchu** yn arbed arian. Y rheswm am hyn yw bod pobl sydd â phrofiad uniongyrchol yn gallu gweld lle mae pethau'n mynd o chwith ar ddechrau **llunio polisïau**.

# Beth y gellid ei wneud?



Gall Llywodraeth Cymru a sefydliadau eraill wneud newidiadau i helpu i gynnwys profiad uniongyrchol drwy **gydgynhyrchu**.



Mae angen i bobl gytuno ar ystyr geiriau a ddefnyddir mewn prosiect. Mae hyn er mwyn i bobl sydd â phrofiad uniongyrchol ddeall yr hyn sy'n cael ei drafod.



Dylai pobl sydd â phrofiad uniongyrchol gael hyfforddiant pan fyddan nhw'n ymuno â phrosiectau. Mae hyn er mwyn iddyn nhw wybod mwy am **lunio polisïau.**



Mae angen i **dystiolaeth** o brofiadau uniongyrchol gael ei hystyried yr un mor bwysig â **thystiolaeth** arall.



Mae angen i Lywodraeth Cymru a sefydliadau eraill weithio’n galetach i gynnwys pobl o **leiafrifoedd ethnig** a phobl ag anabledd dysgu. Mae hyn er mwyn sicrhau nad yw pobl yn cael eu gadael allan.




Dylai Llywodraeth Cymru a sefydliadau eraill gynnwys gwahanol fathau o **dystiolaeth**.

# Geiriau anodd

Mae **rhagfarn** yn golygu gwrando ar un ochr yn fwy na'r llall.

**Cydgynhyrchu** yw lle mae gwahanol bobl yn gweithio gyda'i gilydd yn gyfartal.

Mae **ar y cyd** yn golygu gweithio **gyda'n gilydd**.

Mae **tystiolaeth** yn wybodaeth y gellir ei defnyddio i brofi rhywbeth.

Mae **sefydliadau llawr gwlad** yn bobl yn y gymuned sy'n gweithio gyda'i gilydd i ddatrys problemau a helpu pobl.

Mae **broceriaid gwybodaeth** yn bobl sy'n dod o hyd i **dystiolaeth** ar gyfer **llunwyr polisïau**.

Pobl nad ydynt yn Wyn Prydeinig yw pobl o **leiafrifoedd ethnig**.

Rhestr o'r hyn y mae angen ei wneud a sut y dylid ei wneud yw **polisi**.

Pobl sy'n creu polisi yw **llunwyr polisïau.**

**Llunio polisïau** yw'r gwaith o greu **polisi**.

Mae **dyletswydd statudol** yn rhywbeth y mae'r gyfraith yn dweud bod yn rhaid ei wneud.

## Manylion yr Awdur

Mae **Kathryn Williams** yn intern PhD yng Nghanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru (WCPP), ac mae'n fyfyriwr PhD a ariennir gan ESRC yn Ysgol y Gwyddorau Cymdeithasol ym Mhrifysgol Caerdydd.

For further information please contact:
**Hannah Durrant**
Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru
+44 (0) 29 2087 5345
info@wcpp.org.uk

OGL Mae'r adroddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored

Wales Centre for Public Policy
Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru